**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR – NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD MAWRTH 17 EBRILL 2018**

PRESENNOL
Y Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, G Breeze, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, P Davies, E Durrant, D O Evans, J Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, D R Jones, E Jones, G Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, P E Lewis, S Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, JG Morris, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir M Barnes, J Charlton, S Davies, M Dorrance, L Fitzpatrick, A Jenner, A Jones, J Jones, G Morgan a J Wilkinson.

| 2. | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** |
|---|---|

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Cyngor am benodi Prif Weithredwr dros dro, Dr Mohammed Mehmet, am gyfnod o 9 mis.

| 3. | **DATGANIADAU BUDDIANNAU** |
|---|---|

Ni soniwyd am unrhyw ddatganiadau buddiannau.

| 4. | **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL POWYS – ADRODDIAD YR AROLYGWR A MABWYSIADU** |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011 - 2026. Roedd y Cynllun yn ymgorffori pum argymhelliad rhwymol a wnaethpwyd gan yr arolygydd. Wrth gynnig yr argymhellion, talodd Deiliad y Portffolio dros Economi a Chynllunio deyrnged i waith yr Arweinydd Proffesiynol - Polisi Cynllunio a'i dîm a Gweithgor y CDLl. Eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sir James Evans.

Atebodd yr Arweinydd Proffesiynol – Polisi Cynllunio gwestiynau gan aelodau. Cydnabu'r pwynt a wnaed gan sawl un o'r aelodau, sef gan fod y cynllun yn ymdrin â'r cyfnod 2011-2026, ei fod yn cynnwys ambell ganiatâd oedd eisoes wedi'i roi ond rhoddodd wybod bod y cynllun yn adnabod 5,588 o safleoedd anheddu oedd 24% dros ben y gofyniad o 4,500. Roedd aelodau'n poeni os na fyddai safleoedd â chaniatâd yn cael eu datblygu na fyddai yna le i ddatblygu mewn rhai cymunedau. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai swyddogion yn edrych ar ddewisiadau datblygu eraill drwy geisiadau gwyro. Byddai swyddogion

hefyd yn annog datblygwyr i fynd ati i symud safleoedd yn eu blaenau neu fod mewn perygl o'u colli.

Argymhelliad 1: o 56 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Mabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (Amgaeadau 2.1, 2.2, 3.1 – 3.9), gan ymgorffori'r newidiadau a argymhellir yn Adroddiad yr Arolygydd (Amgaeadau 1.1 – 1.12)** | **Cydymffurfio â:**<br>• **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i newidiwyd.**<br>• **Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, fel y'u newidiwyd.**<br>• **Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.**<br>• **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.**<br>• **Cytundeb Darparu CDLl 2015.** |

Argymhelliad 2: o 57 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **2. Cymeradwyo a chyhoeddi'r:**<br>**(i) Datganiad Mabwysiadu (Amgaead 4); ac**<br>**(ii) Adroddiadau Asesu Terfynol ar gyfer CDLl Powys (HRA, SEA, SA) (Amgaeadau 5.1 – 5.3).** | **Cydymffurfio â:**<br>• **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i newidiwyd.**<br>• **Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) Cymru) 2005, fel y'u newidiwyd.**<br>• **Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.**<br>• **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.**<br>**Cytundeb Darparu CDLl 2015.** |

Argymhelliad 3:  o 56 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **3. Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Arweinydd Proffesiynol – Polisi Cynllunio i gywiro unrhyw wallau teipio neu ramadegol, i ymdrin ag unrhyw fân faterion neu wallau ac unrhyw faterion cyflwyniadol angenrheidiol mewn cysylltiad â chyhoeddi'r CDLl terfynol.** | **Hwyluso'r cyhoeddi.** |

Argymhelliad 4: o 57 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **4. Na fydd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) y CDU presennol a ganlyn ond yn aros fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio nes y caiff eu disodli neu eu tynnu'n ôl:**<br>**(i) CCA Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol, 2010;**<br>**(ii) Canllawiau Dylunio Preswyl, 2004.** | **Galluogi canllawiau cynllunio manwl sydd eisoes yn bodoli i barhau dros dro ar gyfer dau faes yn y polisi cynllunio a'r holl CCA ac IDCG eraill a baratowyd ar gyfer y CDU i gael eu tynnu.** |

| 5. | GWELEDIGAETH 2025: EIN CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL 2018-23 |
|---|---|

Cyflwynodd yr Arweinydd Gynllun Gwella Corfforaethol 2018-23 a ddisodlodd y CGC presennol gan ategu Gweledigaeth 2025 y Cabinet.

Holodd sawl aelod pam nad oedd y cynllun wedi cael ei graffu arno a rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod Grŵp Craffu'r Cyd-gadeiryddion a'r Is-gadeiryddion wedi penderfynu y dylid cyflwyno sylwadau drwy e-bost yn hytrach na'u cyfeirio at y Pwyllgorau Craffu. O 20 pleidlais i 37, methodd gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts fod yr eitem yn cael ei gohirio wrth aros iddi gael ei chyfeirio'n ôl i'r Pwyllgorau Craffu cyn dod yn ôl i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau nad oedd y targed i gynyddu cyfran y gwariant refeniw gyda chyflenwyr a darparwyr o Bowys yn ddigon uchel, rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet yn edrych i fynd dros y targedau hyn. Roedd Deiliad y Portffolio dros Economi a Chynllunio'n ymrwymedig i gynyddu'r gwariant gyda chwmnïau o Bowys a byddai'n cysylltu â phob aelod am fanylion busnesau yn eu wardiau i adeiladu cofrestr o fusnesau a allai gael eu cynnwys ar fframwaith Powys. Bu'r Arweinydd hefyd yn estyn gwahoddiad i'r holl aelodau i gyfres o frecwastau busnes i'w cynnal ar draws y sir. Mewn ymateb i gwestiwn gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a ellid cyflwyno'r Weledigaeth o gofio'r arbedion y byddai gwasanaethau'n gorfod eu gwneud, dywedodd Deiliad y Portffolio dros Gyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth ei fod yn ffyddiog y byddai'r Cabinet yn llwyddo i gyflwyno'r Weledigaeth er gwaetha'r heriau ariannol sy'n ei wynebu er y byddai'n gofyn bod rhai gwasanaethau'n trawsnewid.

O 44 pleidlais i 13

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol (CGC) 2018-23 sydd yn Atodiad A i'r adroddiad.** | **Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol fel a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 1 a 2).** |

| | |
|---|---|
| | **Sicrhau bod gan y Cyngor gynllun darparu a fframwaith rheoli perfformiad clir i weithredu'i Weledigaeth 2025.**<br><br>**Hwyluso ymgysylltiad effeithiol â staff, aelodau etholedig, y cyhoedd a rhanddeiliaid megis rheoleiddwyr.** |

| 6. | TUAG AT 2040: CYNLLUN LLESIANT POWYS 2018 |
|---|---|

Cyflwynodd yr Arweinydd Gynllun Llesiant Powys 2018 oedd wedi'i baratoi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys ac yn cael ei ystyried i'w fabwysiadu gan bob un o gyrff cyfansoddol ei aelodaeth. Pennai'r Cynllun y cyfeiriad y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu ei gymryd, gan gydweithio â phreswylwyr, cymunedau, cynghorau tref a chymuned ac eraill i hyrwyddo a sicrhau llesiant ym Mhowys. Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am eu gwaith ar y Cynllun.

Mewn ymateb i gwestiynau am y trefniadau craffu ar gyfer y cynllun, atgoffwyd yr aelodau fod y Cyngor eisoes wedi cytuno mewn cyfarfod blaenorol ar y broses graffu a fyddai'n cynnwys yr holl gyrff cyfansoddol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Arweinydd a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander ac o 47 pleidlais i 4

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod Cyngor Sir Powys yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu Tuag at 2040, Cynllun Llesiant Powys fel a geir yn Atodiad B i'r Adroddiad.** | **Galluogi cyhoeddi'r Cynllun erbyn 3 Mai gan ddiwallu gofynion statudol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.** |

| 7. | TROSGLWYDDIADAU REFENIW |
|---|---|

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau refeniw i'w hystyried y tro hwn.

| 8. | TEYRNGED I PAUL GRIFFITHS |
|---|---|

Ar ran yr holl aelodau, talodd yr Arweinydd deyrnged i Paul Griffiths oedd yn mynychu ei gyfarfod Cyngor olaf cyn ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr Strategol Lle. Cyfeiriodd at ei yrfa hir a nodedig mewn llywodraeth leol gyda Chyngor Dosbarth Sir Drefaldwyn yn ogystal â Chyngor Sir Powys.

**Y Cynghorydd D E Davies (Cadeirydd)**